# Adroddiad Blynyddol

y

# Bwrdd Monitro Annibynnol

yn

# CEM Berwyn

**ar gyfer y**
**Flwyddyn Adrodd**
**1 Mawrth 2019 i 29 Chwefror 2020**

**Cyhoeddwyd**
**Medi 2020**

Monitro tegwch a pharch i bobl yn y ddalfa

## TABL CYNNWYS

### Adrannau rhagarweiniol


| Adran | Pwnc | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | **Rôl statudol** | 3 |
| **2** | **Cyflwyniad/Crynodeb Gweithredol** | 4 |
| **3** | **Disgrifiad o'r sefydliad** | 7 |


### Adrannau tystiolaeth


| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Diogelwch** | 8 |
| **5** | **Cydraddoldeb a thegwch** | 9 |
| **6** | **Gwahanu/Uned gofal a gwahanu** | 11 |
| **7** | **Llety (gan gynnwys cyfathrebu)** | 12 |
| **8** | **Gofal iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl a gofal cymdeithasol)** | 13 |
| **9** | **Addysg a gweithgareddau eraill** | 15 |
| **10** | **Gwaith, hyfforddiant galwedigaethol a chyflogaeth** | 16 |
| **11** | **Paratoi ar gyfer ailsefydlu** | 17 |

| | | |
|---|---|---|
| **C** | **Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol** | 19 |
| **D** | **Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol** | 20 |

# A Adrannau 1 - 3

## 1. RÔL STATUDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL

Mae Deddf Carcharau 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar neu'r ganolfan wedi'i lleoli.

Dyma ddyletswyddau penodol y Bwrdd:

(1) bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngar ac yn gyfiawn, ac ynghylch amrywiaeth a digonolrwydd y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau

(2) rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae wedi dirprwyo awdurdod iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo

(3) **cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.**

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar, ac eithrio'r cofnodion meddygol.

*Mae COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar allu'r Bwrdd i gasglu gwybodaeth ac i drafod cynnwys yr adroddiad blynyddol hwn. Felly, mae'r Bwrdd wedi gwneud ei orau i ymdrin â chymaint â phosib yn yr amgylchiadau anodd hyn, ond yn anochel mae llai o fanylder a thystiolaeth ategol na'r arfer. Mae'r Gweinidogion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hyn. Mae gwybodaeth reolaidd yn cael ei chasglu'n benodol am ymateb y carchar i'r pandemig, ac mae'r wybodaeth honno'n cael ei chasglu ynghyd ar lefel genedlaethol.*

## 2. CYFLWYNIAD

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Bwrdd Monitro Annibynnol Carchar Ei Mawrhydi (CEM) Berwyn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2019 a 29 Chwefror 2020. Daw tystiolaeth y Bwrdd o arsylwadau a wnaed ar ymweliadau, o graffu ar gofnodion a data, o gysylltu â’r carcharorion, ac o geisiadau i’r Bwrdd Monitro Annibynnol.

Mae’r adroddiad hwn yn y fformat adrodd ‘drwy eithriad’.

Hoffai’r Bwrdd gofnodi ei ddiolch i Eileen Darbyshire, Cadeirydd y Bwrdd Monitro Annibynnol am y tair blynedd ddiwethaf. Mae Eileen wedi dangos sgiliau eithriadol yn sefydlu ac yn rheoli’r Bwrdd i'w sefyllfa gref heddiw.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

## Barn gyffredinol

Prif farn gyffredinol y Bwrdd o ran gweithrediad effeithiol ac effeithlon CEM Berwyn yw ei fod yn dal yn waith sy’n mynd rhagddo, sy’n datblygu ac yn gwella’n barhaus. Agorwyd y sefydliad ag ethos a oedd yn seiliedig ar adsefydlu ac ailsefydlu yn benodol, gyda llawer o ddulliau gweithredu newydd a gwahanol. Mae rhai wedi gweithio’n dda, a rhai nid cystal – ac mae wedi bod yn angenrheidiol gwneud newidiadau ac addasiadau, ar sail tystiolaeth, dros amser. Ar adeg ysgrifennu hwn, ein trydydd adroddiad blynyddol, mae Llywodraethwr newydd wedi cael ei benodi ac mae wedi cael y cyfrifoldeb o arwain y sefydliad drwy heriau'r dyfodol.

## Y prif farnau

1. Mae’r Bwrdd yn cydnabod bod arweinyddiaeth y sefydliad wedi bod yn fwy cyson drwy gydol y flwyddyn adrodd hon. Hoffai'r Bwrdd gymeradwyo’r Llywodraethwr am barhau i sicrhau cynnydd a gwelliant yn ystod cyfnod ansicr. Mae’r Llywodraethwr wedi dangos ymrwymiad parhaus i'r ethos yr adeiladwyd y sefydliad arno. Mae hefyd wedi cydnabod bod angen mireinio rhai dulliau gweithredu er mwyn creu amgylchedd sy’n gosod safonau a disgwyliadau clir ar staff ac ar garcharorion fel ei gilydd. Drwy gydol y newidiadau hyn, mae’r Bwrdd wedi croesawu ymwymiad y Llywodraethwr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo. Mae’r Bwrdd wedi monitro'r newidiadau hyn a bydd yn parhau i adrodd yn ôl ar yr effaith ar garcharorion a’r staff. Rydym yn edrych ymlaen at barhau â’n perthynas waith â'r Llywodraethwr.

2. Fel yr adroddwyd y llynedd, mae’r ffaith fod sylweddau anghyfreithlon yn dal ar gael yn y carchar yn parhau i beri pryder. Mae hyn yn golygu’n aml bod carcharorion yn mynd i ddyledion sylweddol i unigolion a’u bod yn ymddwyn yn dreisgar neu’n ymosodol tuag at staff a charcharorion eraill, neu’n achosi difrod sylweddol i eiddo’r carchar er mwyn cael eu hadleoli i’r uned wahanu (gweler hefyd baragraff 4.1).

3. Fel yr adroddwyd y llynedd, mae prinder yr ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd a chyfweliadau â charcharorion yn destun pryder difrifol, ac nid yw wedi cael sylw. Mae’n ymddangos bod y cyfleusterau hyn yn rhan o’r cynlluniau gwreiddiol ond eu bod wedi cael eu terfynu. Credwn fod hynny ar sail ariannol. Er bod hwn yn destun pryder difrifol yn barod, bydd yn dwysáu wrth i’r sefydliad symud tuag at niferoedd llawn. Ynghyd â hynny y mae’r penderfyniad bod 70% o’r ystafelloedd yn rhai dwbl a 30% yn rhai sengl, sy’n anodd ei reoli o ystyried gofynion asesiadau risg rhannu cell a chyfansoddiad y boblogaeth amrywiol hon. Mae’r ffigur o 70% o gelloedd dwbl a 30% o gelloedd sengl yn gallu bod yn gamarweiniol. Mewn ffigurau crwn, mae gan y sefydliad 1,240 o ystafelloedd; 70% o 1,240 yw 867 ystafell, sy’n dal 1,734 o garcharorion; a 30% o 1,240 yw 372 ystafell, sy’n dal 372 o garcharorion. Felly, cyfanswm y carcharorion y gellir eu dal yw 2,106, sef capasiti’r carchar. Mae hyn yn golygu y bydd 82% o garcharorion mewn ystafelloedd dwbl, a dim ond 18% mewn ystafelloedd sengl pan fydd y carchar wedi cyrraedd ei niferoedd llawn.

## Prif feysydd datblygu

### I'R GWEINIDOG

Mae'r Bwrdd unwaith eto'n tynnu sylw at y prinder cyfleusterau o ran ystafelloedd cyfarfod a chyfweld yn y sefydliad newydd hwn. Mae'r cynllun 70% o ystafelloedd dwbl a 30% o ystafelloedd sengl yn anodd ei reoli o ystyried gofynion asesiadau risg rhannu cell, a chyfansoddiad y boblogaeth amrywiol hon. Gall y ffigurau 70% a 30% hyn fod yn gamarweiniol wrth eu trosi'n niferoedd carcharorion. Mae'n golygu, pan fydd y carchar yn llawn, y bydd tua 82% o garcharorion mewn ystafelloedd dwbl a dim ond 18% mewn ystafelloedd sengl (gweler y prif farnau).

### I'R GWASANAETH CARCHARDAI

- Mae cysondeb yr arweinyddiaeth dros y cyfnod i'w groesawu, ac mae wedi arwain at ganolbwyntio o'r newydd ar flaenoriaethau a newid cyfeiriad y sefydliad wrth iddo symud i'w gam datblygu nesaf.
- Mae angen ystyried nodi cymunedau arbenigol ymhellach er mwyn delio ag anghenion a nodwyd yn benodol – er enghraifft, nifer cynyddol y carcharorion sy'n penderfynu hunanynysu.
- Rhaid bod yn ymwybodol o'r heriau sy'n gysylltiedig â sefydliad o faint CEM Berwyn. Mae prinder ystafelloedd cyfarfod a chyfweld priodol (gweler y prif farnau).
- Rhaid datrys y problemau difrifol o ran diffyg paent a systemau gwresogi aneffeithiol. Mae sylw'n dechrau cael ei roi i'r problemau hyn yn awr, a bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro'r meysydd hynny.

### I'R LLYWODRAETHWR

Er mwyn sicrhau bod CEM Berwyn yn tyfu ac yn gwella, rhaid gwneud yn siŵr bod systemau a pholisïau yn gyson, a bod y carcharorion a'r staff yn eu llawn ddeall. Mae'r materion a godwyd y llynedd yn dal yn berthnasol.

- Mae angen mynd i'r afael â materion a godir gan y carcharorion ar y cyfle cyntaf posib, yn hytrach na gadael iddynt ddwysáu.
- Nodwyd y gallai, ac y dylai, nifer o faterion a ddaeth yn gwynion ffurfiol fod wedi cael sylw ar lefel gymunedol.
- Mae nifer uchel o geisiadau ar Unilink ac ni sylweddolir y gwaith rheoli sydd ei angen i ddelio â nhw'n effeithiol. Erbyn hyn, mae'r ffocws ar ansawdd yr ymatebion a'r angen i ddatrys problemau'n effeithiol ar y cyfle cyntaf posib.
- Mae ymatebion i gwynion (hynny yw Comp 1 a Comp 1a) yn broblem yn y sefydliad. Pe bai'r carcharorion yn cael gwybod am eu hynt, gallai hynny leihau rhwystredigaeth, gan gynnwys ffurflenni Comp 1a ychwanegol a cheisiadau i'r Bwrdd a'r Gaplaniaeth.
- Yr hyn a oedd yn peri pryder yn ystod y cyfnod hwn oedd prinder y ffurflenni Comp 1, Comp 2, a ffurflenni riportio digwyddiad gwahaniaethu yn y cymunedau, sy'n dwysáu'r weithdrefn gwyno mewn meysydd eraill.

**I'R DARPARWR (gofal iechyd ac addysg)**

**Gofal iechyd** – Gweler adran 8
2) Materion polisi meddyginiaeth, 3) Unedau cleifion mewnol/Polisi meddyginiaeth, 5 a 6) Heb fynd i apwyntiadau, DNA, 7) Mentoriaid Cymheiriaid, 8) Darpariaeth nyrsio dros nos, 9) Cynrychiolwyr gofal iechyd mewn adolygiadau da.
**Addysg –** Gweler adran 9
2) Mannau dysgu, 3) Staffio, 4) Lleoedd hyfforddiant galwedigaethol, 5) Data llwyddiant, 6) Diogelwch yn y coleg, 7) Cynnydd.

## 3. DISGRIFIAD O'R SEFYDLIAD

Mae CEM Berwyn yn Stad Ddiwydiannol Wrecsam, Gogledd Cymru. Mae'n garchar ailsefydlu a hyfforddi categori C, ac mae'n gallu dal 2,106 o garcharorion. Mae'r carchar yn cynnwys tri phrif dŷ: Alwen, Bala a Ceiriog. Mae pob tŷ wedi'i rannu'n wyth cymuned, sy'n gallu dal 88 o garcharorion. Mae'r llety ym mhob cymuned yn gyfuniad o gelloedd dwbl a sengl. Ar draws y carchar, mae 30% o'r celloedd yn rhai deiliadaeth sengl, a 70% yn rhai deiliadaeth ddwbl. Ynghyd â'r prif gymunedau, mae gan y carchar uned gofal a gwahanu (Ogwen), sy'n gallu dal 21 o garcharorion.

## B Adrannau tystiolaeth 6 – 13

### 4. DIOGELWCH

4.1 Roedd 406 o ymosodiadau ar garcharorion (dosbarthwyd 48 o'r rhain fel rhai difrifol), a 244 o ymosodiadau ar staff (dosbarthwyd 26 o'r rhain fel rhai difrifol) rhwng mis Mawrth 2019 a mis Chwefror 2020. Cafodd pum ymosodiad rhywiol eu cofnodi hefyd. Yn ogystal â hynny, cofnodwyd 1,006 achos o hunan-niweidio a chofrestrwyd 864 o ddogfennau asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae nifer yr ymosodiadau ac achosion o hunan-niweidio yn dal yn destun pryder i'r Bwrdd.

4.2 Nodwyd mai'r carcharorion yn Berwyn yw defnyddwyr mwyaf llinell ffôn y Samariaid yn y DU.

4.3 Nodwyd mai rhwystredigaeth a diflastod, yn ogystal â'r defnydd o sylweddau anghyfreithlon (a'r dyledion cysylltiedig) yw'r prif ffactorau sy'n sail i'r ffigurau hyn. I helpu i frwydro'n erbyn y ffactorau cyfrannol hyn, mae'r Bwrdd yn ymwybodol o nifer o gamau gweithredu yr hoffai dynnu sylw atynt fel arferion da. Mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

- Mae polisi rasel wedi cael ei gyflwyno i reoli'r mynediad at wrthrych a allai fod yn niweidiol.
- Mae blychau tynnu sylw wedi cael eu dosbarthu i dai, ac mae modd i garcharorion fenthyg eitemau fel posau, radios, llyfrau hunangymorth a deunyddiau lliwio yn ôl yr angen.
- Mae prosiect 'STEAM'[1] wedi cael ei lansio i helpu carcharorion i reoli ffrwydradau emosiynol yn well.

4.4 Mae'r cyfleuster profion cyffuriau gorfodol yn y cyfleuster wedi'i staffio'n barhaus ac mae'n cael ei orfodi'n drylwyr.

4.5 Cydnabyddir hefyd bod y darparwr iechyd yn gwneud gwaith digonol i gynnig gwasanaethau triniaeth am gamddefnyddio sylweddau sy'n canolbwyntio ar adfer.

4.6 Mae'r sefydliad yn darparu mwy nag un rôl i garcharorion, sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch – cynrychiolwyr lleihau trais, Gwrandawyr, mentoriaid, 'torrwr cadwyni' newydd a'r bartneriaeth barhaus â changen leol y Samariaid. Mae'r grwpiau hyn yn mynychu cyfarfodydd diogelwch misol â Llywodraethwyr ac yn cyfrannu at amgylchedd mwy diogel i gyd. Mae'r cynllun torwyr cadwyni yn gynllun cymorth gan gymheiriaid a gafodd ei greu gan ddau yn Berwyn sydd wedi'u dedfrydu am oes. Eu cynulleidfa darged yw dynion sy'n dangos cylchau o ymddygiadau heriol iawn, sy'n cyd-fynd ag arwyddion a/neu fethiant i fynegi eu hunain yn briodol.

4.7 Mae nifer y ceisiadau i'r Bwrdd am broblemau staff/carcharorion mewn perthynas â bwlio yn dal yn destun pryder. Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, cawsom 104 o geisiadau, o'i gymharu â 92 yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Serch hynny, dylid cydnabod bod poblogaeth y carchar wedi tyfu yn ystod y cyfnod adrodd.

[1] **STEAM** – **S**upports **T**argets **E**ngagement **A**ctivity **M**anagement of emotions.

## 5. CYDRADDOLDEB A THEGWCH

5.1 Yn ein hadroddiad blynyddol diwethaf ac yn yr adroddiad ar ôl yr arolygiad dilynol a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ym mis Mawrth 2019, cafodd cydraddoldeb ac amrywiaeth ei nodi fel maes i'w wella. Roedd yr adroddiadau hyn yn ystyried bod arweinyddiaeth strategol y gwaith cydraddoldeb yn wan, ac nad oedd pwysigrwydd gwaith cydraddoldeb yn y carchar yn cael ei hyrwyddo ddigon. Nid oedd y carcharorion yn y grwpiau nodweddion gwarchodedig yn cael eu nodi'n ddigonol, felly nid oedd eu hanghenion yn cael eu cydnabod neu eu bodloni bob amser, ac nid oedd y cymorth a oedd ar gael yn cael ei roi. Yr hyn a adroddwyd hefyd oedd diffyg hyder y carcharorion yn y broses ymchwilio ar ôl cyflwyno ffurflen riportio digwyddiad gwahaniaethu.

5.2 Mae'r Llywodraethwr wedi cymryd yr awenau o ran cadeirio'r cyfarfodydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn Berwyn. Mae swyddogion arweiniol wedi cael eu neilltuo i ddarparu ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig a gofynnir iddynt fynychu'r cyfarfodydd bob deufis, ac i gyflwyno adroddiadau'n uniongyrchol i'r Llywodraethwr. Mae dull gweithredu mwy strategol yn hyn o beth, sydd wedi gwella'n araf ers dechrau'r flwyddyn adrodd. Mae cynrychiolwyr carcharorion ar gyfer pob tŷ yn mynychu'r cyfarfodydd ac mae eu cyfraniad yn cael ei gydnabod gan y Llywodraethwr a'r staff. Rhaid gwella'r lefelau mynychu yn y cyfarfodydd hyn o hyd, yn enwedig ymysg y swyddogion arweiniol nodweddion gwarchodedig.

5.3 Mae fforymau, gweithdai a digwyddiadau mewn cysylltiad â'r meysydd allweddol wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus drwy gydol y flwyddyn. Ymysg y rhain oedd Mis Sipsiwn, Roma a Theithwyr, Wythnos Anableddau Dysgu, Pride, Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn Erbyn Merched, a Diwrnod Cofio'r Holocost, ymysg eraill. Mae'n ymddangos bod staff a charcharorion fel ei gilydd yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau hyn.

5.4 Mae gan garcharorion fynediad da at y gaplaniaeth ac maen nhw'n gallu ymarfer eu ffydd a'u crefydd yn y carchar. Fodd bynnag, roedd rhai newidiadau i amseriad rhoi meddyginiaeth wedi golygu bod rhai carcharorion wedi colli eu sesiynau ffydd neu weddïo o ganlyniad. Mae'r Bwrdd yn credu bod sylw wedi'i roi i'r broblem hon bellach.

5.5 Nododd y Bwrdd broblem o ran croeshalogi'r bwyd mewn ystafelloedd arlwyo tai, a oedd wedi cael ei chodi'n barhaus yn y cyfarfodydd cydraddoldeb yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith wedi cael ei wneud gyda'r gaplaniaeth a'r staff arlwyo i fynd i'r afael â'r pryderon. Mae gwaith monitro wedi'i wneud ar yr ystafelloedd arlwyo hyn, yn ogystal â hyfforddiant i weinyddion, yn benodol mewn cysylltiad â chyfarpar halal a chynllun ystafelloedd arlwyo. Bydd y staff arlwyo yn cyflawni archwiliadau dirybudd ac mae disgwyl i staff yr ystafelloedd arlwyo fonitro bod y cyfarpar cywir yn cael ei ddefnyddio.

5.6 Mae'r system ffurflenni riportio digwyddiad gwahaniaethu (DIRF) yn rhoi cyfle i garcharorion roi gwybod am unrhyw achos o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth maen nhw'n ei wynebu. Adroddwyd diffyg hyder parhaus yn y broses ymchwilio DIRF gan staff a charcharorion. Mae'r carchar wedi ystyried proses sicrhau ansawdd annibynnol allanol i adolygu'r broses DIRF yn Berwyn.

5.7 Mae'r Llywodraethwr wedi bod yn goruchwylio ymatebion y staff i garcharorion a gwneud yn siŵr eu bod yn briodol. Mae'r DIRFs yn cael eu casglu a'u hateb o fewn amserlenni rhesymol.

5.8 O ran yr iaith Gymraeg, nodwyd bod rhai DIRFs a gyflwynwyd yn ymwneud â charcharorion yn siarad Cymraeg yn y cymunedau ac nad oedd y swyddogion yn gallu eu deall. Honnwyd bod y carcharorion hyn wedi cael eu herio ag adolygiad o'u statws cymhellion a breintiau haeddiannol (IEP). Roedd carcharorion Cymraeg hefyd wedi tynnu sylw at bryderon y gwrthodwyd cyfieithydd Cymraeg iddynt yn eu dyfarniadau, a'u bod yn teimlo nad oeddent yn gallu dibynnu ar staff Cymraeg y carchar i fod yn ddiduedd. Mae'r gymuned gynefino wedi cydnabod y byddai'n elwa ar gael siaradwr Cymraeg preswyl.

5.9 Mae'r rhan fwyaf o DIRFs yn ymwneud â hil, sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

5.10 Rydym yn cydnabod bod ymdrechion i wella cydraddoldeb wedi cael eu gwneud ond mae angen parhau i wneud hynny, gan wneud ymdrech benodol i fagu hyder yn y broses DIRF. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos nad yw'r gwaith da sy'n cael ei wneud yn amlwg i ormod o'r achwynwyr, felly mae angen gwella bodlonrwydd ar ganlyniadau DIRF.

## 6. GWAHANU/UNED GOFAL A GWAHANU

6.1 Hoffai aelodau'r Bwrdd gydnabod yr agwedd broffesiynol a gofalgar maen nhw wedi gweld staff yn ei mabwysiadu wrth weithio gyda charcharorion yn yr uned gofal a gwahanu (CASU).

6.2 Ethos y sefydliad yw cadw carcharorion yn CASU am y cyfnod lleiaf posib. Serch hynny, mae adegau lle nad yw hyn wedi bod yn bosib, gan gynnwys i garcharorion sy'n destun proses asesu, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT). Mae'r Bwrdd yn gwybod am y sefyllfaoedd hyn ac yn eu monitro drwy fynychu byrddau adolygu Rheol 45. Mae hyn hefyd yn berthnasol i arosiadau o fwy na 42 diwrnod yn CASU ar gyfer carcharorion sy'n cael eu hail-gategoreiddio i B, ac sy'n aros am le mewn sefydliad categori B sy'n gallu eu derbyn. Yr hyn a fu'n destun pryder eleni yw nifer y carcharorion sy'n cael eu dal yn CASU am fwy nag 84 diwrnod. Teimla'r Bwrdd fod angen rhoi sylw i hyn fel mater o frys.

6.3 Mae angen monitro'n agos y carcharorion sy'n cael eu gwahanu cyn eu trosglwyddo i ysbyty ar sail iechyd meddwl.

6.4 Mae aelodau'r Bwrdd sydd wedi mynychu adolygiadau CASU wedi nodi'r gwahaniaeth o ran paratoadau'r Llywodraethwyr sy'n cadeirio'r adolygiadau. Mae newid/gwelliant amlwg wedi bod o ran rheoli adolygiadau Rheol 45. Mae Llywodraethwyr tai yn cadeirio'r adolygiadau erbyn hyn, ac mae ganddynt wybodaeth dda yn dilyn cyfarfodydd y bore.

6.5 Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod carcharorion yn parhau i ddefnyddio CASU fel ffordd o osgoi'r dyledion maen nhw wedi mynd iddynt pan oeddent yn preswylio mewn cymuned. Yn aml, mae carcharorion yn troseddu sy'n golygu bod yn rhaid eu symud o'r gymuned i CASU am y rheswm hwn. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar lefelau staffio ac yn amharu ar drefn ddyddiol carcharorion eraill. Rhaid gweithredu rhagor o ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth er mwyn atal y cyfle i fynd i ddyled. Byddai'r rhain yn cynnwys nid yn unig ymyriadau i atal cyffuriau rhag dod i mewn i'r sefydliad, ond hefyd cynnydd yn y gweithgareddau ystyrlon ac o ran nodi'r rhai sydd mewn perygl o fynd i ddyled yn gynnar, a darparu ymyriadau cynnar iddynt.

## 7. LLETY A CHYFATHREBU

7.1 Mae dibynadwyedd system wresogi'r adeiladau yn dal yn destun pryder. Methodd y system ym mis Mawrth 2018 ac ym mis Chwefror 2019, gan arwain at ddiffyg gwres a dŵr poeth i garcharorion. Yn ffodus, cafodd y sefyllfa ei rheoli'n dda gan staff y carchar a chafodd system wrth gefn ei gosod ym mis Chwefror 2019, rhag ofn bod y sefyllfa'n codi eto. Dylid nodi mai dim ond i dri phrif dŷ'r carcharorion mae'r system hon yn berthnasol, ac nid i weddill y lleoliadau ar y safle. Fodd bynnag, mae hyn yn codi pryderon gan fod yr adeilad yn gymharol newydd ac mae potensial uchel am anfodlonrwydd o ganlyniad i ddiffyg gwres a dŵr poeth.

7.2 O ystyried mai adeilad newydd yw'r sefydliad, mae'n siom nodi bod y plastr ar y waliau wedi'i baratoi a'i osod yn anghywir. Mae hyn wedi achosi diffygion paent cudd, ac i baent gormodol bilio yn ystafelloedd carcharorion. Mae rhywfaint o waith gwella wedi'i wneud. Serch hynny mae'n dal yn fater i'w ddatrys rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r contractwr. Y goblygiadau yw nad yw'r amodau i garcharorion yn cyrraedd y safon y byddem yn ei disgwyl.

7.3 Hoffai'r bwrdd gael ei sicrhau y bydd y problemau ehangach mewn perthynas â'r diffygion paent difrifol a'r systemau gwresogi aneffeithiol yn cael eu datrys yn y dyfodol agos. Bydd peidio â datrys y broblem, neu oedi'r gwaith, yn golygu heriau mawr o ran capasiti a gweithrediad y sefydliad.

7.4 Mae rhannu celloedd yn cael ei chodi'n rheolaidd fel problem gan garcharorion i'r staff, ymwelwyr ac aelodau'r Bwrdd ar rota, ac i'r Bwrdd drwy geisiadau. Mae hyn yn cynnwys carcharorion sydd wedi'u cyfyngu i'r drefn sylfaenol oherwydd nad ydynt yn cytuno i rannu, ac yn cyflwyno ceisiadau i'r perwyl hwn. Fodd bynnag, nid oes modd i'r sefydliad ddarparu'r hyn nad oes ganddo i'w ddarparu. Mae dyluniad y carchar, gyda 70% o ystafelloedd dwbl a 30% o rai sengl yn achosi heriau sylweddol i garcharorion a'r staff – yn enwedig o ystyried nifer uchel y carcharorion sy'n methu rhannu o ganlyniad i ofynion asesiadau risg rhannu cell, cyflyrau meddygol ac amryw o faterion unigol eraill yn y sefydliad categori C hwn.

## 8. GOFAL IECHYD (GAN GYNNWYS IECHYD MEDDWL A GOFAL CYMDEITHASOL)

8.1 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gofal iechyd yn CEM Berwyn.

8.2 Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y problemau a achoswyd gan y polisi meddyginiaeth wedi cilio.

8.3 Cydnabyddir mai un o'r rhesymau bod rhagor o garcharorion yn derbyn y polisi meddyginiaeth yw cyflwyno'r mentoriaid cymheiriaid ar gyfer iechyd a lles. Mae'r model hwn wedi rhoi cyfle i garcharorion drafod y penderfyniadau sydd wedi'u gwneud ynghylch eu gofal iechyd â mentoriaid cymheiriaid hyfforddedig, a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt pe baent yn dymuno dadlau unrhyw benderfyniad sydd wedi'i wneud. Yn awr, mae'r model yn cael ei ehangu i wneud gwaith pellach â charcharorion sy'n colli eu hapwyntiadau gofal iechyd yn rheolaidd.

8.4 Mae nifer y carcharorion sy'n colli eu hapwyntiadau gofal yn dal yn destun pryder. Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Chwefror 2020, roedd y gwasanaeth gofal iechyd wedi darparu 51,370 o apwyntiadau. O'r rhain, roedd 8,119 (15.8%) yn apwyntiadau wedi'u gwastraffu oherwydd nad oedd y carcharorion yn bresennol. Mae apwyntiadau sy'n cael eu gwastraffu yn achosi rhwystredigaeth oherwydd mae'n hysbys bod carcharorion eraill yn aros am apwyntiadau tebyg.

8.5 Rhaid gwneud gwaith pellach i ddeall yr hyn sy'n achosi i garcharorion golli apwyntiadau gofal iechyd, gan gydnabod y gallai fod llawer o resymau. Ymysg y rhesymau posib mae blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd o ran apwyntiadau (fel ymweliadau cyfreithiol), methu symud o gwmpas y carchar i fynd i apwyntiad (wedi colli slip symudiadau, diffyg staff i ddatgloi), neu ofn newyddion drwg. Dylai'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y mentoriaid cymheiriaid ar gyfer iechyd a lles gyfrannu at y gwaith o sefydlu rhai o'r rhesymau.

8.6 Mae'r mentoriaid cymheiriaid ar gyfer iechyd a lles wedi bod yn rhedeg llinell gymorth gofal iechyd ers mis Tachwedd 2018. Mae modd i garcharorion roi galwad i'r llinell gymorth os ydynt yn cael problemau sy'n ymwneud â gofal iechyd. Mae'r fenter wedi cael ei chroesawu hyd yma. Cafodd 1,611 o alwadau rhwng mis Mawrth 2019 a mis Chwefror 2020.

8.7 Mae prinder y staff gofal iechyd ar y safle ar ôl 7pm wedi bod yn destun pryder i'r Bwrdd ers sefydlu'r model. Yn dilyn trafodaethau â'r uwch dîm arwain, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno darpariaeth nyrsio dros nos ers mis Ebrill 2019.

8.8 Yn y gorffennol, mae aelodau'r Bwrdd sy'n mynychu adolygiadau carcharorion yn CASU wedi codi pryderon ynglŷn â rôl y cynrychiolydd gofal iechyd sy'n mynychu'r adolygiad. Nodwyd bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud. Erbyn hyn mae gan staff gofal iechyd wybodaeth dda ac maen nhw'n gallu cyfrannu'n well at adolygiadau Rheol 45.

## 9. ADDYSG A GWEITHGAREDDAU ERAILL

9.1 Novus Cambria, sef partneriaeth rhwng Coleg Cambria a Novus Cambria, sy'n dal i ddarparu addysg yng Ngholeg Berwyn. Mae'n ymddangos bod y bartneriaeth yn gweithio'n dda ac yn datblygu dros amser. Mae'r model dysgu a sgiliau yn dal yn arloesol ac yn anelu at gefnogi adsefydlu drwy sicrhau canlyniadau cadarnhaol a gobaith uwch o gyflogaeth ar ôl rhyddhau.

9.2 Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd roedd Coleg Berwyn yn darparu 419 o leoedd dysgu craidd yn y bore, a 407 yn y prynhawn. Mae'r lleoedd hyn yn ymgysylltu â'r carcharwr mewn lleoliad hyfforddiant ffurfiol, seiliedig ar ystafell ddosbarth, a lleoliad hyfforddiant sgiliau galwedigaethol ei arddull.

9.3 Mae nifer y staff wedi codi i 70. Mae llawer ohonynt yn athrawon profiadol sy'n gweithio mewn amgylchedd carchar am y tro cyntaf. Ystyriwyd hyn yn fantais, ond yn her hefyd o ganlyniad i'r amgylchedd gwahanol.

9.4 Mae wedi bod yn her dyrannu carcharorion i'r lleoedd hyfforddiant galwedigaethol - hynny yw, gwneud yn siŵr bod y carcharor cywir ar y cwrs cywir. Mae nifer y carcharorion nad ydynt yn mynychu wedi bod yn broblem. Mae hyn wedi cael ei gydnabod a bydd y broses ddyrannu'n cael ei hadolygu.

9.5 Y rhagolwg o ran data llwyddo 2019/20, ar gyfer y carcharorion hynny sy'n cael eu cadw a'u hardystio, yw 97% – yr un fath â 2018/19. O ran cyfradd gadw dysgwyr ar gyrsiau, y rhagolwg yw y bydd yn aros ar 98%. Rhagolygon yw'r rhain gan nad yw'r ffigurau gwirioneddol ar gael eto.

9.6 Yn ystod y flwyddyn, gwelsom ddiogelwch staff a charcharorion yn y coleg yn gwella. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth fwy llym ar ddod i mewn ac allan o'r coleg. Mae swyddogion mewn iwnifform ger y drws ac mae'r mentoriaid yn sicrhau gorfodaeth drylwyr ar y dderbynfa, gan gynnwys mynnu bod yr holl ymwelwyr yn mewngofnodi ac allgofnodi. Mae cloi drysau coridorau mewnol a thoiledau yn atal y defnydd o sylweddau anghyfreithlon hefyd. Yn gyffredinol, dros amser, mae hyder y staff wedi cynyddu wrth iddynt ennill dealltwriaeth a phrofiad o 'grefft carchar'.

9.7 Yn debyg i rannau eraill o'r sefydliad, mae'r coleg ar daith ac mae cynnydd cyson yn cael ei wneud. Disgwylir arolygiad gan Estyn[2] yn gynnar ym mlwyddyn adrodd nesaf y Bwrdd.

[2] Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

## 10. GWAITH, HYFFORDDIANT GALWEDIGAETHOL A CHYFLOGAETH

10.1 Mae problem gyda charcharorion yn peidio â mynychu'r gwaith a ddyrennir iddynt. Mae wedi bod yn broblem barhaus yn y carchar ers mis Gorffennaf 2018. Nodwyd bod rhesymau amrywiol dros hyn ond mae'r sefyllfa'n gallu achosi rhwystredigaeth ymysg carcharorion sy'n aros am leoliad gwaith.

10.2 Canran y carcharorion sy'n mynychu gweithgareddau pwrpasol yw 87%. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys absenoldebau derbyniol – hynny yw, apwyntiadau gofal iechyd, ymyriadau seicoleg, ac ymweliadau. 13% yw ffigur absenoldeb y carcharorion hynny y dyrannwyd gweithgareddau pwrpasol iddynt.

10.3 Mae'r gweithdai hyfforddiant galwedigaethol wedi agor yn awr, ar y cyd â Choleg Berwyn, ac maen nhw'n cynnig y cyfleoedd canlynol:

- Gwaith coed ar safle – 25 o leoedd
- Gwaith coed ar fainc – 20 o leoedd
- Gosod brics – 10 o leoedd
- Plastro – 15 o leoedd
- Cynaliadwyedd – 12 o leoedd
- Glanhau diwydiannol – 30 o leoedd

10.4 Pryder arall yw'r ffaith nad yw'r carchar wedi cwblhau gwaith adeiladu cychwynnol y cyfleusterau gweithgareddau gweithdy eto. Mae'n galonogol bod cyllid ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn yn derfynol wedi cael ei ddarparu eleni. Mae'r Bwrdd yn awyddus i bwysleisio bod angen cwblhau'r cyfleusterau gweithgareddau yn derfynol er mwyn darparu'r hyder y bydd lle pwrpasol i garcharorion yn y dyfodol.

10.5 Dyma rai o'r cyfleoedd gwaith a oedd ar gael yn y sefydliad ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn:

- Ceginau (gan gynnwys caffi'r carchar) – 50
- Rheoli gwastraff – 12
- Cynnal a chadw'r tir – 14
- DHL – 80
- Mentoriaid – 80
- Gwaith cymunedol – 302

10.6 Mae Berwyn yn parhau i roi pwyslais ar werth darpariaeth dan arweiniad cymheiriaid. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb yn y dderbynfa pan fydd carcharorion newydd yn cyrraedd. Hefyd, mae'r carcharorion yn cyflawni rolau mentora yn y cymunedau er mwyn helpu eu cymheiriaid i ddefnyddio technoleg ddigidol drwy Unilink. Mae'r carchar wedi sefydlu menter gymdeithasol â Dylan's, cwmni o ogledd Cymru. Ffrwyth y fenter hon yw'r 'Custodial Pie Corporation', sydd wedi ennill gwobrau. Mae'n parhau i arwain at gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar ôl rhyddhau.

10.7 Fel esboniad, cadwyn bwytai yng ngogledd Cymru yw Dylan's, sydd â chysylltiadau agos â Berwyn. Mae cynhyrchiad y peis hyn gan garcharorion Berwyn yn ymdrech gydweithredol rhwng y gadwyn bwytai a thîm arlwyo'r sefydliad. Mae'r fenter wedi ennill dwy wobr genedlaethol hyd yma.

## 11. PARATOI AR GYFER AILSEFYDLU

11.1 Mae'r sefydliad yn parhau i ddatblygu ac integreiddio'r gwasanaethau cymorth a'r ymyriadau sydd ar gael i'r carcharorion yn CEM Berwyn. Mae'r rhain yn cynnwys perthnasoedd ar ffurf partneriaethau mewnol ac allanol. Drwy weithio yn y modd hwn, mae wedi bod yn bosib caffael nifer o wasanaethau i fodloni anghenion y boblogaeth.

11.2 Mae nifer o'r partneriaid allanol yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd yn Berwyn ac mae gan rai staff wedi'u lleoli yn y sefydliad, fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Byddin yr Iachawdwriaeth.

11.3 Mae staff Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal y Carchar, sydd wedi'u lleoli yn y dderbynfa a'r ardal ymweliadau, yn gweithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd ac ymwelwyr â'r sefydliad er mwyn cynnig cefnogaeth.

11.4 Mae gan y carcharorion liniaduron yn eu hystafell. Gallant gael gafael ar y rhaglenni lleihau aildroseddu drwy'r rhain.

11.5 Yn hollbwysig, mae'r perthnasoedd â thîm y cwmni adsefydlu cymunedol (CRC) yn sicrhau bod gwasanaethau ailsefydlu da yn cael eu darparu yn y carchar

11.6 Mae staff y CRC yn parhau i gyfarfod pob carcharor yn eu ffenestr ailsefydlu. Mae cyfnod 16 wythnos wedi cael ei fabwysiadu yn Berwyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posib. Ar anghenion y carcharor mae'r ffocws yn ystod y cyfnod ailsefydlu. Mae hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion tai a chyflogaeth. Mae'r CRC yn gwneud yn siŵr bod gan bob carcharor sy'n gadael Berwyn ddogfennau adnabod ar ffurf addas er mwyn bodloni anghenion o ran cyflogaeth a budd-daliadau. Ar ben hynny, cynigir cymorth i'r holl garcharorion i wneud yn siŵr bod ganddynt gyfrif banc addas i hwyluso'r broses o bontio o fyw yn y carchar i fyw yn y gymuned. Mae gan y CRC gysylltiadau ardderchog â darparwyr tai ac mae'n gwneud yn siŵr bod ceisiadau tai perthnasol yn cael eu cyflwyno cyn yr adeg rhyddhau, gyda'r wybodaeth berthnasol gan gynnwys statws angen blaenoriaethol, wedi'i chynnwys i gryfhau'r broses gwneud cais.

11.7 Yn ôl y CRC, y ffigur 'heb gartref sefydlog' ymysg carcharorion sy'n cael eu rhyddhau yng Nghymru yw 9.88% ar gyfartaledd. Nid yw'r ffigurau ar gyfer carcharorion yn Lloegr, sy'n destun yr un gwaith paratoi, ar gael.

11.8 Nid yw mynediad at gredyd cynhwysol yn cael ei amlygu fel problem yn Berwyn, oherwydd mae apwyntiadau'n cael eu gwneud â'r Ganolfan Byd Gwaith cyn rhyddhau. Er hynny, mae bwlch o hyd cyn i garcharorion gael unrhyw fudd-daliadau.

11.9 Mae'r broses ymweliadau'n seiliedig ar egwyddorion normalrwydd. Mae'r ymwelwyr yn cael eu croesawu mewn adeilad allanol a chynigir cefnogaeth iddynt. Yn ogystal â hynny, mae trefniadau cyfeirio ar waith ar gyfer cymorth gan Cyngor ar Bopeth, budd-daliadau, Shelter, a banciau bwyd.

11.10 Ar wahân i'r ddarpariaeth ailsefydlu a ddarperir i bob carcharor, mae cyfle i'r rhai ag anghenion mwy cymhleth neu ffactorau agored i niwed penodol fynychu'r cyfarfod anghenion ailsefydlu misol. Caiff hwn ei gadeirio gan bennaeth y tîm CRC a'i gefnogi gan y swyddogaeth lleihau aildroseddu. Mae nifer uchel o bartneriaid a chyd-weithwyr yn y cyfarfodydd, fel y

darparwr adferiad a chymorth CAIS, Cyfle Cymru, Remploy, darparwyr tai awdurdodau lleol, yr elusen cyn-filwyr SSAFA, yr Adran Gwaith a Phensiynau, hyfforddwyr gwaith o Novus Cambria, a staff gofal iechyd. Y nod yw nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg cyn rhyddhau a chynnig y cymorth gorau i hwyluso'r broses o bontio i fyw yn y gymuned. Mae staff gofal iechyd yn darparu sicrwydd o ran darparu meddyginiaeth a ragnodir ar adeg rhyddhau, ac yn cynnig cymorth i wneud yn siŵr bod carcharorion wedi cofrestru ag ymarferwyr cymunedol er mwyn sicrhau darpariaeth gofal iechyd heb fylchau. Ceir cymorth ychwanegol gan fentoriaid i wneud yn siŵr bod darparwyr yn cael cymorth cyn ac ar ôl iddynt gymryd rhan yn y cyfarfod.

11.11 Mae'r sefydliad wedi gweithio'n galed i feithrin perthynas gadarnhaol â'r gymuned leol. Mae'r cysylltiadau hyn wedi cael eu cryfhau gan yr ymrwymiad i barhau i gynnal y digwyddiad Nadolig blynyddol i'r henoed yn y gymuned, sy'n cynnwys cinio Nadolig tri chwrs wedi'i baratoi gan y carcharorion, yn ogystal ag adloniant. Cynhelir digwyddiadau'r Siambr Fasnach i edrych ar gyfleoedd rhyddhau ar drwydded dros dro i'r carcharorion. Yn fwy diweddar, mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu â Shelter Wrecsam, sydd wedi cytuno i fodloni anghenion dillad y carcharorion ar adeg rhyddhau (fel cotiau cynnes), ac mae cyd-drefniant ar waith i staff sydd wedi ymrwymo i roi dillad i'r siop yn Wrecsam.

11.12 Mae cael cartref ar ôl rhyddhau yn dal yn her. Mae'r gwasanaethau ailsefydlu yn dal yn cyflwyno ceisiadau tai perthnasol i bob carcharor ar adeg rhyddhau, ac mae'r CRC wedi gweithio'n galed i sefydlu cysylltiadau cadarnhaol â darparwyr tai rhanbarthol a chenedlaethol.

11.13 Ar ddiwrnod rhyddhau, mae gan garcharorion â ffactorau agored i niwed perthnasol neu anghenion cymhleth fynediad at wasanaethau 'drwy'r giât' PACT sy'n gallu, os oes angen, casglu carcharorion ar adeg rhyddhau a'u hebrwng i apwyntiadau â'r Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Gwasanaeth Prawf. Maen nhw'n cael eu rhyddhau drwy'r dderbynfa lle rhoddir cymorth i garcharorion drwy wybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth leol, a chyfle i gysylltu â phartïon perthnasol dros y ffôn cyn rhyddhau.

## Adran C – Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae aelodau'r Bwrdd wedi monitro cyfanswm o naw digwyddiad difrifol yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Dechreuodd pob un pan oedd yr aelodau dan sylw yn y sefydliad yn cyflawni eu hymweliadau rota rheolaidd.

| **YSTADEGAU'R BWRDD** | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau Bwrdd sy'n cael ei argymell<br>*(Sefydliad newydd, caiff ei asesu fel 24 pan fydd yn llawn)* | 18 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd<br>*(5 aelod newydd, 7 aelod craidd o'r Bwrdd, 1 aelod deuol o'r Bwrdd)* | 13 |
| Nifer yr aelodau Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd<br>*(5 aelod newydd, 7 aelod craidd o'r Bwrdd, 1 aelod deuol o'r Bwrdd)* | 13 |
| Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad | 641 |
| Cyfanswm yr adolygiadau gwahanu wedi'u mynychu/monitro<br>(hynny yw, dydd Llun/Mercher a dydd Gwener am 2pm)<br>Mae'r dull monitro hwn yn sicrhau hefyd bod unrhyw garcharor sy'n cael ei symud i CASU yn cael ei weld gan aelod o'r Bwrdd o fewn y terfyn amser 72 awr | 127/99% |

Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod yn rhaid iddo wneud mwy i recriwtio aelodau o grwpiau lleiafrifol. Mae hyn yn cynnwys unigolion o gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), ac unigolion nad Saesneg yw eu mamiaith. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd unrhyw gynrychiolwyr o'r gymuned BAME ac mae ganddo un aelod nad Saesneg yw ei famiaith (Cymraeg yn yr achos hwn).

## Adran D – Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol

| Cod | Pwnc | Blwyddyn adrodd bresennol | Blwyddyn adrodd flaenorol |
|---|---|---|---|
| A | Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, ymolchi | 20 | 26 |
| B | Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, cymhellion a breintiau haeddiannol (IEP), sancsiynau | 34 | 40 |
| C | Cydraddoldeb | 12 | 20 |
| D | Gweithgareddau pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, y llyfrgell, trefn, amser y tu allan i'r gell | 24 | 19 |
| E 1 | Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd | 32 | 43 |
| E 2 | Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant | 14 | 13 |
| F | Bwyd a cheginau | 13 | 7 |
| G | Iechyd, gan gynnwys iechyd corfforol, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol | 57 | 43 |
| H 1 | Eiddo yn y sefydliad hwn | 88 | 103 |
| H 2 | Eiddo yn ystod trosglwyddo, neu mewn sefydliad neu leoliad arall | 41 | 48 |
| H 3 | Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au) | 13 | 8 |
| I | Rheoli dedfryd, gan gynnwys cyrffyw cyfyngu i'r cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio | 62 | 42 |
| J | Pryderon staff/carcharorion, gan gynnwys bwlio | 104 | 92 |
| K | Trosglwyddiadau | 44 | 20 |
| L | Amrywiol | 40 | 32 |
| | **Cyfanswm y ceisiadau** | 598 | 556 |

Cafwyd ac atebwyd 27 o geisiadau cyfrinachol hefyd yn ystod y flwyddyn adrodd bresennol, gan roi 625 yn gyfanswm.

**Oherwydd nad yw'r Bwrdd yn cyfarfod wyneb yn wyneb, mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gymeradwyo ar-lein gan John Atherton, y Cadeirydd, a Susan Roberts a David Evans, yr Is-gadeiryddion.**